Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

Mr Michael Gray
Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol
Cyngor Sir Penfro

Dyddiad: 09 Fedi 2025

Annwyl Gyfarwyddwr,

**Ymweliad Archwiliad Gwelliant â Gwasanaethau Oedolion Cyngor Sir Penfro**

## 1. Cyflwyniad

Mae'r llythyr hwn yn nodi canfyddiadau Archwiliad Gwelliant Arolygiaeth Gofal Cymru o wasanaethau oedolion Cyngor Sir Penfro a gynhaliwyd ar 8 a 9 Gorffennaf 2025. Cynhaliwyd yr ymweliad hwn yn dilyn Archwiliad Gwelliant blaenorol ym mis Ebrill 2024.

Rydym yn ymgymryd â gweithgarwch arolygu yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Deddf 2014); llinellau ymholi allweddol; a'r safonau ansawdd yn y *Cod ymarfer mewn perthynas â pherfformiad a gwella gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru*. Mae hyn yn ein helpu i bennu pa mor effeithiol yw awdurdodau lleol wrth gefnogi, mesur, a chynnal gwelliannau i bobl ac mewn gwasanaethau.

Canolbwyntiodd yr Archwiliad Gwelliant ar y cynnydd a wnaed yn y meysydd canlynol y nodwyd bod angen eu gwella yn ystod ein Archwiliad Gwelliant ym mis Ebrill 2024:

| Egwyddor | Meysydd i'w gwella a nodwyd yn yr Arolygiad Gwerthuso Perfformiad ym mis Ebrill 2024 | Cynnydd a nodwyd yn ystod yr archwiliad gwelliant |
|---|---|---|
| Pobl | Fel rhan o'i waith ailstrwythuro, rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod mesurau penodol ar waith i fynd i'r afael â'r oedi wrth gynnal asesiadau ac adolygiadau o gynlluniau gofal a chymorth. | Gwelliannau wedi'u gwneud a rhaid eu cynnal |

| | | |
|---|---|---|
| | Dylai'r awdurdod lleol sicrhau bod gwybodaeth perfformiad dibynadwy ar gael.<br><br>Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod asesiadau'n mynd i'r afael ag anghenion gofalwyr yn gyson.<br><br>Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau ei fod yn parhau i wella'r modd y mae'n comisiynu ac yn rhoi cymorth i'r person sy'n derbyn gofal a'r gofalwyr anffurfiol.<br><br>Rhaid i'r awdurdod lleol barhau i wella'r broses o gomisiynu gwasanaethau er mwyn sicrhau ei allu i gefnogi pobl sy'n byw mewn cymunedau gwledig yn y wlad.<br><br>Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod y cynlluniau o ran y tîm cyswllt cyntaf yn cael eu rhoi ar waith a'u monitro mewn modd amserol.<br><br>Dylai'r awdurdod lleol sicrhau ei fod yn hyrwyddo diwylliant o ymgysylltiad rheolaidd â staff, gan roi cyfleoedd i leisiau pobl gael eu clywed.<br><br>Rhaid i'r awdurdod lleol barhau i fonitro a gwneud gwelliannau mewn perthynas â hyrwyddo'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg a gweithio ochr yn ochr â gwasanaethau a gomisiynwyd i sicrhau bod y gwasanaethau hyn yn eu tro yn hyrwyddo'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg. | Gwelliannau wedi'u gwneud a rhaid eu cynnal<br><br>Rhai gwelliannau wedi'u gwneud – mae angen cymryd camau pellach<br><br>Gwelliannau wedi'u gwneud a rhaid eu cynnal<br><br>Rhai gwelliannau wedi'u gwneud – mae angen cymryd camau pellach<br><br>Rhai gwelliannau wedi'u gwneud – mae angen cymryd camau pellach<br><br>Rhai gwelliannau wedi'u gwneud – mae angen cymryd camau pellach<br><br>Rhai gwelliannau wedi'u gwneud – mae angen cymryd camau pellach |

| | | |
|---|---|---|
| Atal | Caiff cynlluniau eu datblygu i fynd i'r afael ag amseroldeb ymatebion statudol ond rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod y cynlluniau yn mynd i'r afael yn benodol â'r dull o ddatrys yr oedi.<br><br>Dylai'r awdurdod lleol ystyried buddiannau diwygio'r broses o gyflawni'r strategaeth sicrhau ansawdd er mwyn sicrhau ei bod yn gynhwysol, gan sicrhau bod gan bob aelod o'r staff rôl yn sicrhau ansawdd. Dylai'r broses o gyflawni'r strategaeth ganolbwyntio ar y modd y caiff dysgu ehangach ei raeadru ar draws y gyfarwyddiaeth.<br><br>Rhaid i'r awdurdod lleol roi sicrwydd i'w hun bod asesiadau yn cael eu cynnal yn briodol, a bod pobl yn cael gwasanaeth amserol. | Gwelliannau wedi'u gwneud a rhaid eu cynnal<br><br>Rhai gwelliannau wedi'u gwneud – mae angen cymryd camau pellach<br><br>Gwelliannau wedi'u gwneud a rhaid eu cynnal |
| Llesiant | Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod adnoddau digonol ar gael i ymateb a rheoli ymholiadau ynghylch diogelu oedolion. | Rhai gwelliannau wedi'u gwneud – mae angen cymryd camau pellach |
| Partneriaeth | Dylai rheolwyr gofal cymdeithasol a'r bwrdd iechyd barhau i gydweithio gan ganolbwyntio ar iechyd a llesiant y person drwy ddarparu gwasanaethau gyda'i gilydd.<br><br>Nid yw ymarferwyr gofal cymdeithasol yn cael adborth rheolaidd mewn perthynas â hysbysiadau rhyddhau cleifion o'r ysbyty yn ddiogel a gyflwynir i | Gwelliannau wedi'u gwneud a rhaid eu cynnal<br><br>Rhai gwelliannau wedi'u gwneud – mae angen cymryd camau pellach |

| | | |
|---|---|---|
| | ysbytai. Mae hwn yn gyfle a gollir i wella prosesau cyfathrebu a gweithio mewn partneriaeth a dylai rheolwyr gofal cymdeithasol a'r bwrdd iechyd fynd i'r afael â hyn. | |

## 2. Rhestr Terminoleg a Diffinio Meintiau

Mae rhestr terminoleg yn Atodiad 1 a thabl diffinio meintiau yn Atodiad 2.

## 3. Crynodeb

3.1 Gwnaed cynnydd ar draws pob maes i'w wella a nodwyd ym mis Ebrill 2024. Mae gan y staff ddealltwriaeth gliriach o'r cyfeiriad strategol o dan arweiniad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol ac maent yn fwy cadarnhaol am y cyfeiriad y mae'r awdurdod lleol yn anelu tuag ato. Er bod y newidiadau strwythurol a wnaed ym mhob rhan o'r gwasanaeth yn ymddangos yn gadarnhaol, mae ardaloedd bregus o hyd ac mae angen gwneud mwy o waith i sicrhau y cyfathrebir â'r staff ac y cânt eu cynnwys wrth wneud newidiadau i'r gwasanaeth. Mae llwythi gwaith hydrin a llesiant staff yn heriau parhaus.

3.2 Er bod digonolrwydd staff wedi gwella a bod llai o swyddi gwag, mae'r broses recriwtio yn her o hyd yn Sir Benfro oherwydd sawl ffactor, gan gynnwys llety lleol fforddiadwy a marchnad gyflog gystadleuol.

3.3 Mae ymarfer diogelu yn yr awdurdod lleol wedi gwella. Mae arweinyddiaeth gadarnhaol yn sicrhau bod staff y tîm diogelu oedolion mewn sefyllfa dda i gyflawni'r dyletswyddau a ragnodir gan ddeddfwriaeth. Mae cofnodion canlyniadau pobl sy'n destun gweithgarwch diogelu oedolion yn glir ar y cyfan.

3.4 Mae'r awdurdod lleol yn ymateb i bryderon diogelu brys. Mae'r partneriaid yn deall eu dyletswydd i roi gwybod am achosion, a rhoddir gwybod i'r tîm diogelu am oedolion sy'n wynebu risg mewn modd amserol a phriodol.

3.5 Mae'r bartneriaeth â'r trydydd sector yn un o asedau Sir Benfro, gyda chryfderau unigryw gwasanaethau gwahanol yn helpu i wella canlyniadau i bobl. Mae gan sefydliadau trydydd sector gysylltiadau cryf â chymunedau lleol ac maent yn chwarae rôl hollbwysig wrth helpu pobl i gael cymorth yn y gymuned a nodi unigolion y gallai gwasanaethau gofal cymdeithasol statudol fod o fudd iddynt.

3.6 Mae ymarfer amlasiantaethol da i'w weld yn amlwg, gydag enghreifftiau o gydweithio cadarnhaol rhwng asiantaethau allweddol fel cydweithwyr gofal iechyd a'r heddlu.

3.7 Gwnaed cynnydd sylweddol i leihau'r achosion o oedi wrth gynnal asesiadau ac adolygiadau o drefniadau gofal a chymorth pobl. Y prif ffactor sy'n gysylltiedig

â'r gwelliant hwn yw'r ymdrech i ail-gysoni amser y staff i ganolbwyntio ar y maes ymarfer hwn. Mae'r rheolwyr yn hyderus y gellir cynnal y gwelliannau.

## 4. Canfyddiadau allweddol a thystiolaeth

Cyflwynir canfyddiadau allweddol a rhai enghreifftiau o dystiolaeth isod yn unol â phedair egwyddor Deddf 2014.

### Pobl

**Cryfderau**

4.1 Mae'r broses gydweithio rhwng ymarferwyr a'r tîm rheoli wedi gwella. Mae ailgyflwyno'r fforymau ymarferwyr a rheolwyr wedi cyfrannu at y gwelliant hwn. Mae'r Prif Weithredwr a Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cysgodi timau. Mae hyfforddiant cyfathrebu cydweithredol wedi cael ei gynnig i staff a grwpiau partner, ac mae hyn yn cyfrannu at ddealltwriaeth ar y cyd a model ar gyfer gweithio gyda phobl.

4.2 Mae gan yr awdurdod lleol weithlu gwydn sy'n gweithio'n unol â gofynion llwyth gwaith sy'n gyson uchel. Mae'r staff yn ymrwymedig i gefnogi pobl, ac mae llawer ohonynt yn mynd y tu hwnt i'r disgwyliadau gwaith arferol i wella canlyniadau. Mae'r staff yn cael cymorth da gan eu rheolwyr, gan gynnwys cyfleoedd goruchwylio ffurfiol ac anffurfiol.

4.3 Mae'r rhan fwyaf o'r cofnodion gofal cymdeithasol yn dangos bod ffocws ar gryfderau a galluoedd y person a'i anghenion ar y pryd, gyda chysylltiad clir rhwng y wybodaeth a gesglir a'r ffordd y gellir darparu gofal a chymorth er mwyn cyflawni canlyniadau personol.

4.4 Mae ansawdd yr asesiadau a'r cynlluniau gofal a chymorth yn dda. Mae'r prosesau asesu ac adolygu yn nodi dewisiadau'r bobl fel mater o drefn yn ystod sgyrsiau 'Yr Hyn sy'n Bwysig', ac mae'n amlwg bod y staff yn deall cyd-destun a bywyd y person hwnnw. Mae llawer o'r cofnodion adolygu yn cynnwys ciplun o elfennau allweddol o fywyd y person, gan gynnwys agweddau cymdeithasol ac emosiynol yn ogystal â'r heriau y mae'n eu hwynebu. Mae hyn yn enghraifft o **ymarfer cadarnhaol** gan fod deall cyd-destun personol mewn asesiadau gofal cymdeithasol i oedolion yn hollbwysig er mwyn sicrhau y caiff gofal a chymorth eu haddasu i ddiwallu anghenion, dewisiadau, a phrofiadau bywyd unigryw unigolion.

4.5 Mae'r ymarferwyr yn ystyried galluedd meddyliol ac eiriolaeth wrth gefnogi pobl. Mae'r awdurdod lleol yn nodi y bu cynnydd wrth gynnig cyfleoedd sefydlu a hyfforddi yn Gymraeg ar draws lefelau hyfedredd gwahanol ac mae ymgeiswyr

sy'n siarad Cymraeg wedi cael eu penodi i swyddi allweddol. Mae'r rhan fwyaf o'r cofnodion yn nodi dewis iaith a galluedd meddyliol.

4.6 Mae'r awdurdod lleol yn dangos ymrwymiad cryf i hyrwyddo dewis a rheolaeth drwy amrywiaeth o opsiynau gofal a chymorth. Mae hyn yn cynnwys defnyddio gwasanaethau gofal uniongyrchol traddodiadol fel cymorth cartref yn effeithiol a hyrwyddo gwasanaethau amgen yn gyson fel cynorthwywyr personol a gaiff eu hariannu drwy daliadau uniongyrchol, a busnesau micro. Mae hyn yn rhoi mwy o ddewis, rheolaeth a hyblygrwydd yn y ffordd y caiff anghenion gofal pobl eu diwallu.

4.7 Gall y rhan fwyaf o bobl ddefnyddio taliadau uniongyrchol a chael gwasanaeth gan gynorthwywyr personol. Mae strwythurau ar waith i gefnogi'r gwasanaeth taliadau uniongyrchol yn ogystal â chynorthwywyr personol, sy'n cefnogi ac yn galluogi trefniadau gofal mwy annibynnol ac wedi'u personoli ac yn cydbwyso'r galw am ddarpariaeth gofal uniongyrchol.

4.8 Mae'r rheolwyr yn cymeradwyo asesiadau fel mater o drefn, sy'n bwysig er mwyn sicrhau ansawdd mewn perthynas â llesiant a diogelwch pobl a datblygiad proffesiynol.

**Meysydd i'w Gwella**

4.9 Effeithir ar forâl rhai aelodau o'r staff wrth iddynt ymdrechu i sicrhau bod y capasiti yn ateb y galw. Dywedodd rhai aelodau o'r staff hefyd yr hoffent weld y rheolwyr sy'n dyrannu gwaith a'r ymarferwyr yn trafod mwy er mwyn gwella'r gallu i gyfathrebu am amgylchiadau unigol a chapasiti o ran y llwyth gwaith.

4.10 Mae cefnogi llesiant staff gofal cymdeithasol oedolion sy'n gweithio o dan amodau sy'n aml yn brysur ac yn heriol yn hollbwysig er mwyn cynnal system gofal dosturiol ac effeithiol. **Dylai'r awdurdod lleol ganolbwyntio ar gyfathrebu'n glir wrth ddyrannu llwyth gwaith, a sicrhau y gellir rheoli'r llwythi gwaith er mwyn helpu i leihau straen ac atal blinder galwedigaethol, gan yn y pen draw sicrhau llesiant y staff a'r bobl y maent yn eu cefnogi.**

4.11 Caiff llawer o asesiadau eu cynnal ar ffurf asesiadau ar y cyd, sy'n canolbwyntio ar y person sy'n derbyn gofal a'r gofalwr anffurfiol. Yn y cofnodion hyn, rhoddir rhywfaint o ystyriaeth i gymorth anffurfiol, ond gellid gwella'r manylion am anghenion y gofalwyr a'u dealltwriaeth o'u rôl drwy ystyried rôl y gofalwr yn fwy trylwyr.

4.12 Mae'n hollbwysig bod ymarferwyr gofal cymdeithasol yn deall y gofynion sydd ar ofalwyr anffurfiol, gan eu bod yn aml yn darparu cymorth corfforol, emosiynol

ac ymarferol helaeth. Mae'r enghreifftiau o arferion gorau yn dangos y gall ymdrin â llesiant gofalwyr arwain at ofal mwy sefydlog a chyson i'r rhai sy'n cael cymorth ganddynt, a fydd yn helpu i gynnal annibyniaeth ac ansawdd bywyd yn y gymuned. Mae'r awdurdod lleol yn cydnabod hyn i raddau ac mae'n bwriadu cyflwyno mynegeion ar gyfer gofalwyr y gellir eu defnyddio i lywio asesiadau. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod asesiadau yn canolbwyntio'n llwyr ar nodi a deall rôl gofalwyr anffurfiol a'r ffordd y mae hyn yn gysylltiedig â'r gofal a'r cymorth a ddarperir.**

4.13 Mae rhai o'r cofnodion asesu ac adolygu yn cynnwys cynlluniau wrth gefn, ond yn aml nid yw'r rhain yn cynnwys llawer o wybodaeth nac yn cael eu cwblhau'n gyson. Mae hyn yn golygu na chaiff newidiadau posibl i anghenion cymwys eu hystyried na'u rhagweld yn effeithiol. **Dylai'r arweinwyr a'r ymarferwyr ganolbwyntio ar wella ansawdd y cynlluniau gofal a chymorth wrth gefn.**

4.14 Ceir ymrwymiad parhaus i gynnig dewis i bobl gael gwasanaethau yn Gymraeg, ond gwelsom enghraifft lle nad oedd dewis iaith unigolyn wedi cael ei fodloni. Mae cyfathrebu â phobl yn eu dewis iaith yn hyrwyddo cynhwysiant a thegwch, sy'n egwyddorion craidd ym maes gofal cymdeithasol. **Rhaid i'r awdurdod lleol barhau i fonitro a gwneud gwelliannau mewn perthynas â'r broses o hyrwyddo'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg.**

4.15 Mae ymgysylltu â staff ym maes gofal cymdeithasol yn hanfodol ar gyfer arweinyddiaeth effeithiol, gan ei fod yn meithrin amgylchedd cefnogol a chydweithredol sy'n effeithio'n uniongyrchol ar ansawdd y gofal a ddarperir. Er bod llawer o'r staff yn cydnabod bod y broses ymgysylltu rhwng uwch-reolwyr ac ymarferwyr wedi gwella'n gyffredinol, dywedodd rhai aelodau o'r staff nad yw rhai rheolwyr yn deall nac yn cydnabod gofynion eu rolau yn llawn nac yn treulio amser yn gwrando ar safbwyntiau'r staff. **Dylai'r arweinwyr wella'r dull a ddefnyddir i gyfathrebu a chydweithio â'r staff ymhellach.**

## <u>Atal</u>

### Cryfderau

4.16 Caiff ymrwymiad yr awdurdod lleol i atal ei gefnogi gan nifer o sefydliadau trydydd sector. Mae Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro (PAVS) yn cefnogi'r trydydd sector yn Sir Benfro. Mae'n chwarae rôl hanfodol wrth gefnogi, datblygu a chynrychioli sefydliadau gwirfoddol, gwirfoddolwyr a chymunedau. Mae'n cyfrannu at **ymarfer cadarnhaol** wrth ddarparu ystod eang o wasanaethau atal a gwella dull ataliol yr awdurdod lleol.

4.17 Mae amseroldeb y broses o adolygu cynlluniau gofal a chymorth pobl wedi bod yn her barhaus i'r awdurdod lleol, ond gwnaed cynnydd sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf drwy wirio data (sicrhau bod gwybodaeth am bobl yn gywir

ar y system TG) a rhoi dull rhagweithiol ar waith i ymdrin ag achosion o oedi. Yn y pen draw, mae adolygiadau amserol ac ymatebol yn helpu i sicrhau bod y gofal yn parhau'n ymatebol ac yn ddiogel, a'i fod yn gydnaws â nodau ac ansawdd bywyd unigolyn ar y pryd.

4.18 Mae'r awdurdod lleol wedi cyflwyno rôl asesydd dibynadwy i gynnal adolygiadau ac mae'n gweithio gyda darparwyr i ddatblygu model adolygu diwygiedig. Mae hefyd wrthi'n cyflwyno gweithwyr cyswllt mewn cartrefi gofal a darparwyr gofal er mwyn sicrhau y gwneir newidiadau effeithlon ac amserol i gynlluniau gofal a chymorth. Yn y dyfodol, mae'n bwysig bod yr awdurdod lleol yn parhau i gydymffurfio â Rhan 4 o Ddeddf 2014, sy'n ei gwneud yn ofynnol iddo adolygu cofnodion gofal a chymorth i fonitro cynnydd a newidiadau ac ystyried i ba raddau y mae'r broses o roi'r cynllun ar waith yn diwallu'r anghenion a aseswyd a sut mae wedi helpu'r unigolyn neu'r teulu i gyflawni ei ganlyniadau.

4.19 Mae'r cynlluniau ar gyfer rhoi gwasanaeth gofal cymdeithasol ‘drws ffrynt’ newydd i oedolion ar waith yn mynd rhagddynt, a'r uchelgais yw sicrhau newid sylweddol yn y ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu yn y dyfodol. Cafodd dyddiau treialu eu cynnal gydag asiantaethau partner allweddol, gan gynnwys hwb PAVS, gyda'r nod o ddatblygu pwynt mynediad unigol. Cafwyd adborth cadarnhaol gan ymarferwyr a phartneriaid am y dyddiau hyn.

4.20 Mae rheolwyr y tîm derbyn (sy'n darparu pwynt cyswllt cyntaf ac yn cynnig gwybodaeth, cyngor a chymorth i helpu pobl i gael cymorth a gwasanaethau priodol) a'r tîm oedolion yn y gymuned (sy'n helpu i roi cynlluniau gofal a chymorth ar waith yn bennaf) yn goruchwylio atgyfeiriadau, rhestrau aros a dyraniadau.

4.21 Mae'n amlwg bod prosesau sicrhau ansawdd da yn cael eu rhoi ar waith gan reolwyr llinell mewn perthynas â'r cofnodion gofal a chymorth, a bod prosesau awdurdodi cyson a chyfleoedd i gael adborth yn ystod sesiynau goruchwylio. Ailddechreuwyd y fforymau staff ym mhob rhan o'r gwasanaeth, gan gynnig cyfle i fyfyrio a rhannu gwersi a ddysgwyd.

**Meysydd i'w Gwella**

4.22 Yn 2024, nododd AGC y dylai'r awdurdod lleol ystyried buddiannau diwygio'r broses o gyflawni ei strategaeth sicrhau ansawdd er mwyn sicrhau ei bod yn gynhwysol, gan sicrhau bod gan bob aelod o'r staff rôl wrth sicrhau ansawdd. Ni chymerwyd camau digonol yn hyn o beth, ac ni roddwyd digon o flaenoriaeth i amser gwarchodedig i gynnal archwiliadau ansoddol, er enghraifft. Mae hyn yn golygu nad yw'r awdurdod lleol yn manteisio'n llawn ar y cyfle i fyfyrio ar themâu ymarfer a gwersi ehangach i'w dysgu. **Dylai'r awdurdod lleol sicrhau**

**ei fod yn cytuno ar raglen glir o archwiliadau ac yn ei rhoi ar waith, a bod proses o rannu'r gwersi i'w dysgu yn cael ei gweithredu.**

**<u>Llesiant</u>**

**Cryfderau**

4.23 Mae ffocws cydweithredol ar gefnogi pobl yn eu cartrefi eu hunain, gydag enghreifftiau o arfer gorau mewn perthynas â'r cynlluniau yn nodi amrywiaeth o ofal a chymorth y gellir eu cael drwy wasanaethau statudol a gwasanaethau'r trydydd sector, yn seiliedig ar asesiadau cymesur.

4.24 Un enghraifft o **ymarfer cadarnhaol** yw'r ffordd y mae cofnodion yn cysylltu manylion pwysig am ganlyniadau personol â'r cymorth ymarferol a ddarperir yn aml gan weithwyr gofal. Mae'r cynlluniau gofal a chymorth yn fanwl, ac yn cynnwys manylion am y gofal personol sydd ei angen i gefnogi a chynnal annibyniaeth pobl.

4.25 Mae tegwch o ran y gwasanaethau sydd ar gael ledled y sir, gan gynnwys mewn ardaloedd gwledig, wedi gwella. Mae'r rhestrau aros ar gyfer gwasanaethau cymorth cartref wedi lleihau ac mae defnydd cyson o gynorthwywyr personol drwy daliadau uniongyrchol a mynediad at fusnesau micro yn ategu'r amrywiaeth o wasanaethau cymorth sydd ar gael i bobl.

4.26 Mae'r awdurdod lleol yn hysbysu'r unigolyn a roddodd wybod am yr achos am ganlyniad achosion a gyflwynwyd o dan y ddyletswydd i adrodd a chanlyniad ymholiadau diogelu oedolion fel mater o drefn. Mae hyn yn bwysig er mwyn gwneud yn siŵr bod sefydliadau partner yn ymwybodol o'r camau gweithredu a gymerwyd i ddiogelu pobl, ond hefyd gan ei fod yn rhoi cyfle i hyrwyddo dealltwriaeth a rennir o'r broses o wneud penderfyniadau a'r rhesymeg. Mae hyn yn enghraifft o **ymarfer cadarnhaol**.

4.27 Gwnaed cynnydd sylweddol o ran cofnodion sy'n ymwneud â gweithgarwch diogelu oedolion. Mae ymarferwyr yn gwerthuso'r wybodaeth a gesglir yn unol ag adran 126 o Ddeddf 2014, sy'n amlinellu dyletswydd awdurdodau lleol i ymchwilio i sefyllfaoedd lle maent yn amau bod oedolyn yn wynebu risg o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso. Mae llawer o'r cofnodion yn dadansoddi gwybodaeth, yn gwerthuso diogelwch ac mae'r rhesymeg dros wneud penderfyniadau yn glir.

4.28 Mae'r enghreifftiau o arferion gorau yn cynnwys dull cymesur sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn sy'n sicrhau bod llesiant, safbwyntiau, a chanlyniadau dymunol yr oedolyn wrth wraidd y broses. Mae ymarferwyr yn cydbwyso risgiau â pharch tuag at annibyniaeth ac yn mabwysiadu'r dull lleiaf cyfyngol gan barchu hawliau ac urddas yr oedolyn ar yr un pryd.

4.29 Mae trefniadau cydweithio amlasiantaethol yn dda, gyda phrosesau cyfathrebu clir, trefniadau rhannu gwybodaeth priodol, a ffocws a chydbwysedd ar atal ac amddiffyn. Ceir presenoldeb a chyfranogiad amlasiantaethol da mewn cyfarfodydd strategaeth a drefnir o dan Weithdrefnau Diogelu Cymru.

4.30 Mae'r rheolwyr yn cydnabod bod angen datblygu'r tîm diogelu oedolion ymhellach. Mae'r arweinwyr wrthi'n recriwtio er mwyn ehangu'r tîm, a fydd yn bwysig er mwyn sicrhau y gellir gwneud gwelliannau pellach o ran ansawdd yr ymarfer.

**Meysydd i'w Gwella**

4.31 Mae proses ffurfiol newydd wedi cael ei chyflwyno i ymchwilio i ganlyniadau hysbysiadau rhyddhau cleifion o'r ysbyty mewn ffordd anniogel a'u cyfathrebu. Fel rhan o'r broses, caiff ffurflenni Datix eu cyflwyno er mwyn cael ymateb ffurfiol gan staff gofal iechyd. Mae ffurflen Datix yn cyfeirio at system rhoi gwybod am ddigwyddiadau ar-lein a ddefnyddir gan fyrddau iechyd i gofnodi a rheoli digwyddiadau, camgymeriadau a fu bron â digwydd, a risgiau'n ymwneud â diogelwch cleifion. Mae'r system yn cael ei defnyddio i hwyluso'r gwersi i'w dysgu o'r digwyddiadau hyn er mwyn gwella gofal cleifion a lleihau unrhyw ddigwyddiadau yn y dyfodol. Fodd bynnag, dywedodd rhai ymarferwyr gofal cymdeithasol nad ydynt yn cael adborth rheolaidd yn gyson mewn perthynas â hysbysiadau rhyddhau cleifion o'r ysbyty yn anniogel. Dywedwyd wrthym fod yr holl ymatebion drwy Datix bellach yn cael eu cyflwyno drwy'r tîm diogelu a bod ymrwymiad i sicrhau y cânt eu hanfon at bob tîm sy'n rhan o'r gwasanaethau oedolion. **Dylai'r awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd sicrhau bod staff gofal cymdeithasol sy'n cyflwyno hysbysiad yn cael gwybod am y canlyniad a'r gwersi a nodwyd.**

## <u>Partneriaethau</u>

### Cryfderau

4.32 Mae'r awdurdod lleol yn ymrwymedig i feithrin partneriaethau cydweithredol â sefydliadau yn y trydydd sector. Gwnaed ymdrechion sylweddol i ddefnyddio'r gwasanaethau a ddarperir gan y trydydd sector i ddarparu help cynnar a chymorth ataliol drwy ddeall anghenion lleol a chynnig datrysiadau hyblyg ac arloesol. Mae hyn yn enghraifft o **ymarfer cadarnhaol**.

4.33 Dywedodd partneriaid statudol allweddol fel cydweithwyr yn yr heddlu a'r gwasanaethau iechyd bod cydberthnasau gwaith cadarnhaol ganddynt â'u cydweithwyr ym maes gofal cymdeithasol i oedolion ar lefelau gweithredol a strategol. Mae'n galonogol bod trefniadau cyfathrebu effeithiol ar waith mewn

perthynas â gweithgarwch diogelu oedolion, a bod ymatebion prydlon i'w gweld yn amlwg pan fydd gwahanol asiantaethau yn cyfathrebu.

4.34 Caiff sefydliadau partner eu cynnwys mewn sesiynau i fyfyrio ar brosesau cyfathrebu cydweithredol seiliedig ar gryfderau a fforymau 'powlen bysgod'. Mae'r systemau hyn yn cynnig cyfle i gynnal sgyrsiau amlddisgyblaethol er mwyn mynd i'r afael â set o amgylchiadau unigryw unigolyn. Roedd yn amlwg o'r fforwm y gwnaethom arsylwi arno fod dealltwriaeth a rennir yn bodoli rhwng asiantaethau, gan gynnwys y trydydd sector, a'u bod yn cydweithio i ddatrys heriau ac anawsterau. Mae'r **ymarfer cadarnhaol** hwn yn canolbwyntio ar sicrhau cymaint o ymreolaeth ac annibyniaeth â phosibl i bobl yn ogystal â nodi a chymryd camau i leihau risgiau. Pan fo gweithwyr proffesiynol o asiantaethau gwahanol, fel asiantaethau gofal iechyd a thai, yn cydweithio'n agosach, mae'n osgoi achosion o ddyblygu gwaith ac yn hyrwyddo ymyriadau amserol.

**Meysydd i'w Gwella**

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella o dan yr egwyddor hon.

## 5. Y camau nesaf

Mae AGC yn disgwyl i'r awdurdod lleol ystyried y meysydd i'w gwella a nodwyd a chymryd camau priodol i fynd i'r afael â'r meysydd hyn a'u gwella. Bydd AGC yn monitro cynnydd drwy ei gweithgarwch adolygu perfformiad parhaus gyda'r awdurdod lleol. Lle y bo'n berthnasol, rydym yn disgwyl i'r awdurdod lleol rannu'r ymarfer cadarnhaol a nodwyd ag awdurdodau lleol eraill, er mwyn rhannu'r gwersi a ddysgwyd a helpu i lywio gwelliant parhaus mewn gwasanaethau statudol ledled Cymru.

## 6. Methodoleg

### Gwaith maes

- Casglwyd y rhan fwyaf o'r dystiolaeth arolygu drwy adolygu profiadau 34 o bobl, drwy edrych ar eu cofnodion gofal cymdeithasol a'u holrhain. Gwnaethom edrych ar 30 o gofnodion gofal cymdeithasol ac olrhain pedwar.
- Mae olrhain cofnod gofal cymdeithasol unigolyn yn cynnwys sgwrsio â'r person sy'n cael gwasanaethau gofal cymdeithasol, ei deulu neu ei ofalwyr, ei weithiwr allweddol, rheolwr y gweithiwr allweddol, a lle y bo'n briodol, weithwyr proffesiynol cysylltiedig eraill.
- Gwnaethom ymgysylltu drwy gyfweliadau â phedwar person sy'n cael gwasanaethau a/neu eu gofalwr di-dâl ac ymatebodd 12 o bobl i'n harolwg.
- Gwnaethom ymgysylltu drwy gyfweliadau a grwpiau ffocws â 34 o gyflogeion yr awdurdod lleol, gan gynnwys gweithwyr cymdeithasol a rheolwyr tîm.

- Gwnaethom edrych ar y dogfennau ategol a anfonwyd at AGC at ddiben yr archwiliad gwelliant.
- Gwnaethom arsylwi ar fforwm ‘powlen bysgod’
- Gwnaethom ddosbarthu arolygon i staff gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol, rhanddeiliaid a phobl.

Mae ein Hysbysiad Preifatrwydd ar gael yn https://www.arolygiaethgofal.cymru/sut-rydym-yn-defnyddioch-gwybodaeth-bersonol.

## 7. Y Gymraeg

Mae AGC yn ymrwymedig i ddarparu cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg yn ystod ei gweithgarwch ag awdurdodau lleol. Nid oedd angen y cynnig rhagweithiol y tro hwn. Cawsom wybod gan yr awdurdod lleol nad oedd y bobl a oedd yn cymryd rhan am gyfrannu at y archwiliad gwelliant hwn yn Gymraeg.

## 8. Cydnabyddiaethau

Hoffai AGC ddiolch i'r staff, y partneriaid a'r bobl a roddodd o'u hamser i gyfrannu at yr arolygiad hwn.

Yn gywir,



**Lou Bushell-Bauers**
Pennaeth Arolygu Awdurdodau Lleol
**Arolygiaeth Gofal Cymru**

## 9. Rhestr termau

**Atodiad 1**

| **Term** | **Beth rydym yn ei olygu yn ein hadroddiadau a'n llythyrau** |
|---|---|
| **Rhaid** | Ystyrir bod angen gwella er mwyn i'r awdurdod lleol gyflawni dyletswydd a nodir mewn deddfwriaeth, rheoliad neu god ymarfer. Nid yw'r awdurdod lleol yn cyflawni ei ddyletswydd/dyletswyddau statudol ar hyn o bryd a rhaid iddo weithredu. |
| **Dylai** | Bydd gwelliant yn gwella'r gwasanaeth a ddarperir a/neu ganlyniadau i bobl a/neu eu gofalwyr. Nid yw'n gyfystyr â methiant i gyflawni dyletswydd gyfreithiol ar hyn o bryd; ond heb gamau gweithredu addas, mae risg y gall yr awdurdod lleol fethu â chyflawni ei ddyletswydd/dyletswyddau cyfreithiol yn y dyfodol. |
| **Ymarfer cadarnhaol** | Meysydd o gryfder a nodwyd yn yr awdurdod lleol. Mae'n ymwneud ag ymarfer yr ystyrir ei fod yn arloesol a/neu sy'n arwain yn gyson at ganlyniadau cadarnhaol i bobl sy'n cael gwasanaethau statudol. |
| **Atal ac Ymyrryd yn Gynnar** | Un o egwyddorion Deddf 2014 sy'n anelu at sicrhau bod cymorth ar gael i atal sefyllfaoedd rhag gwaethygu, a gwella'r broses o sicrhau llesiant unigol a chyffredinol. Mae'r egwyddor hon yn canolbwyntio ar gynyddu gwasanaethau ataliol mewn cymunedau er mwyn atal anghenion critigol rhag dwysáu. |
| **Llais a Rheolaeth** | Un o egwyddorion Deddf 2014 sy'n anelu at roi unigolion a'u hanghenion wrth wraidd eu gofal a'u cymorth, a rhoi llais a rheolaeth iddynt mewn perthynas â'r canlyniadau a all eu helpu i sicrhau llesiant ac i gyflawni'r pethau sydd bwysicaf iddynt. |
| **Llesiant** | Un o egwyddorion Deddf 2014 sy'n anelu at sicrhau llesiant i bobl ym mhob rhan o'u bywydau. Mae llesiant yn golygu mwy na bod yn iach. Mae'n ymwneud â bod yn ddiogel ac yn hapus, cael dewis a chael y cymorth priodol, bod yn rhan o gymuned gadarn, bod â ffrindiau a chydberthnasau buddiol, a chael diddordebau, gwaith neu gyfleoedd dysgu. Mae'n ymwneud â helpu pobl i sicrhau eu llesiant eu hunain a mesur llwyddiant gofal a chymorth. |

| | |
|---|---|
| **Cydgynhyrchu** | Un o egwyddorion Deddf 2014 sy'n anelu at gynnwys pobl yn fwy wrth ddylunio a darparu eu gofal a'u cymorth. Mae'n golygu sicrhau bod sefydliadau a gweithwyr proffesiynol yn gweithio gyda nhw a'u teulu, eu ffrindiau a'u gofalwyr er mwyn sicrhau eu bod yn cael y gofal a'r cymorth gorau. |
| **Gwaith amlasiantaethol** | Un o egwyddorion Deddf 2014 sy'n anelu at atgyfnerthu'r trefniadau cydweithio rhwng sefydliadau gofal a chymorth er mwyn gwneud yn siŵr bod y mathau priodol o gymorth a gwasanaethau ar gael mewn cymunedau lleol i ddiwallu anghenion pobl. Mae crynodiad y Ddeddf yn nodi ei bod yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus gydweithredu a gweithio mewn partneriaeth. |
| **Yr hyn sy'n bwysig** | Mae sgyrsiau am 'Yr Hyn sy'n Bwysig' yn galluogi gweithwyr proffesiynol i ddeall sefyllfa pobl, eu llesiant ar y pryd, a'r hyn y gellir ei wneud i'w helpu. Mae'n sgwrs gyfartal ac mae'n bwysig er mwyn helpu i sicrhau y caiff llais yr unigolyn neu'r gofalwr a'r 'hyn sy'n bwysig' iddynt eu clywed. |

## Atodiad 2

### Tabl Diffinio Meintiau

| Terminoleg | Diffiniad |
|---|---|
| Bron pob un | Gydag ychydig iawn o eithriadau |
| Y rhan fwyaf | 90% neu fwy |
| Llawer | 70% neu fwy |
| Mwyafrif | Dros 60% |
| Hanner | 50% |
| Tua hanner | Yn agos i 50% |
| Lleiafrif | Llai na 40% |
| Nifer bach | Llai nag 20% |
| Nifer bach iawn | Llai na 10% |